**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

# Ail Adroddiad yr Ymchwiliad i Ddyfodol y Polisi Cydlyniant

Gorffennaf 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2082 8617
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Europe.comm@wales.gsi.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

# Ail Adroddiad yr Ymchwiliad i Ddyfodol y Polisi Cydlyniant

Gorffennaf 2010

## Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

Caiff y Pwyllgor drafod unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r ffordd y mae'r Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol neu'r Cynulliad yn arfer eu swyddogaethau o ran yr Undeb Ewropeaidd neu faterion allanol, ac adrodd ar y materion hynny.

## Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007. Nodir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn arbennig Rheol Sefydlog 18.1. Mae'r rhain i'w cael yn **www.cynulliadcymru.org**

## Committee Membership



**Rhodri Morgan (Cadeirydd)**
Gorllewin Caerdydd
Llafur



**Nick Bourne**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Plaid Geidwadol Cymru



**Jeff Cuthbert**
Caerffili
Llafur



**Mike German**
Dwyrain De Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Rhodri Glyn Thomas**
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Plaid Cymru

## Rhestr o'r Adroddiadau a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor

| *Teitl yr adroddiad* | *Dyddiad cyhoeddi* |
| --- | --- |
| Adroddiad Interim yr Ymchwiliad i Ddyfodol y Polisi Cydlyniant | Rhagfyr 2009 |

Mae'r holl adroddiadau pwyllgor blaenorol ar gael yn **www.cynulliadcymru.org**

# Cynnwys


**Rhagair y Cadeirydd ..... 5**

**Prif Gasgliadau ac Argymhellion y Pwyllgor ..... 6**

Prif Gasgliadau ..... 6

Argymhellion i sefydliadau Ewropeaidd a chyrff cynrychioladol ..... 6

Argymhellion i Lywodraeth Cymru ..... 7

**Cefndir ..... 10**

**Cyd-destun - datblygiadau ers adroddiad cyntaf y Pwyllgor ..... 10**

**Materion allweddol ..... 12**

1. Cefnogaeth gref i bolisi ledled yr UE: gwrthod ail-wladoli ..... 12

2. Rôl y rhanbarthau ..... 13

3. Dull 'Tîm Cymru' ..... 14

4. A fydd Cymru'n gymwys i gael cyllid 'Cydgyfeirio' yn y dyfodol? 16

5. Cyllid Pontio ..... 17

6. ERDF ac ESF fel rhan o'r Polisi Cydlyniant ..... 19

7. Y bygythiad posibl i Gymru: blaenoriaethu ardaloedd trefol ..... 20

8. Dysgu Gwersi o'r rhaglenni presennol ..... 20

9. "Diwylliant grantiau" yn erbyn benthyciadau cylchol ..... 21

10. Strategaeth Ewrop 2020 a Pholisi Cydlyniant ..... 22

11. Llywodraethu ar sawl lefel ..... 24

12. Gweithredu Ewrop 2020 yng Nghymru ..... 25

Yr Undeb Arloesi ..... 25

Yr agenda sgiliau ..... 29

13. Ffynonellau cyllido eraill ..... 30

**Tystion ..... 32**

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ..... 34**

**Atodiad – Adroddiad interim cyntaf: Cylch gorchwyl a'r materion allweddol y bydd rhaid mynd i'r afael â nhw ..... 35**

## Rhagair y Cadeirydd

Hwn yw ail adroddiad ymchwiliad y Pwyllgor i ddyfodol Polisi Cydlyniant yr UE. Cafodd adroddiad interim cyntaf y Pwyllgor, a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2009, ei groesawu'n frwd yng Nghymru a Brwsel ac fe'i ddisgrifiwyd gan nifer o randdeiliaid fel cyfraniad amserol at y drafodaeth bresennol ar y polisi.

Cymerais yr awenau fel Cadeirydd y Pwyllgor yn Ionawr 2010 ac rwyf yn ddiolchgar i fy rhagflaenydd, Sandy Mewies AC, am arwain cam cyntaf yr ymchwiliad. Ar Ddydd Gŵyl Dewi cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod ffurfiol ym Mrwsel i gychwyn yr ail gam o gasglu tystiolaeth wrth i'r Comisiwn Ewropeaidd gyhoeddi Strategaeth arfaethedig Ewrop 2020 - y ddogfen i olynu Strategaeth Twf a Swyddi Lisbon. Mae'r Pwyllgor wedi edrych ar y blaenoriaethau strategol yn Ewrop 2020 gyda rhanddeiliaid Cymreig, ac mae hyn wedi tanlinellu pa mor bwysig yw buddsoddi mewn ymchwil a datblygiad a sgiliau lefel uwch yng Nghymru.

O gofio bod y sefydliadau Ewropeaidd wrthi'n ystyried Ewrop 2020, a bod Papur Gwyn ar ddyfodol Cyllideb yr UE a'r Pumed Adroddiad Cydlyniant i'w cyhoeddi yn yr hydref, mae'n adeg briodol i'r Pwyllgor adrodd unwaith eto. Rydym wedi ystyried yr amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) am 2007, sy'n dangos bod Cymru wedi disgyn o dan y trothwy o 75 y cant CMC ar gyfer yr hyn a elwir ar hyn o bryd yn gyllid Cydgyfeirio. Rydym hefyd yn cyhoeddi yng nghyd-destun sefyllfa ariannol heriol a chythryblus, a phenodiad Llywodraeth Glymblaid newydd ar gyfer y DU ym mis Mai.

Mae diddordeb mawr ymhlith rhanddeiliaid Cymreig yng Nghronfeydd Strwythurol yr UE o ran a fydd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys am gyllid Cydgyfeirio pellach, neu am gyllid pontio o dan fframwaith Polisi Cydlyniant yn y dyfodol. Mae hefyd yn parhau i fod yn hynod bwysig cael polisi ledled yr UE a fyddai'n helpu unrhyw ranbarth yn yr Undeb Ewropeaidd sydd angen cymorth arni. A chofio'r angen i ddylanwadu ar y ddadl bwysig hon ar lefel yr UE, rydym wedi cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, sefydliadau Ewropeaidd a chynrychiolwyr cyrff Ewropeaidd.

Rwyf yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at waith y Pwyllgor hyd yma ac yn croesawu pob cyswllt parhaus â'n partneriaid strategol yng Nghymru a thu hwnt.

Rhodri Morgan

# Prif Gasgliadau ac Argymhellion y Pwyllgor

## Prif Gasgliadau

Mae'r dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod ail gam yr archwiliad hwn yn cefnogi'n gryf y negeseuon yn ein hadroddiad cyntaf, sef; parhau â Pholisi Cydlyniant ledled yr UE ar gyfer pob rhanbarth yn yr Undeb Ewropeaidd, yn yr hen Aelod Wladwriaethau a'r rhai newydd, gan barhau i roi mynediad at gyllid Cydgyfeirio a Chystadleuaeth yn amodol ar yr angen, yn ogystal â chymorth pontio ar gyfer y rhanbarthau hynny sy'n newid o statws 'Cydgyfeirio'. Gwrthodir yn llwyr y syniad o 'ail-wladoli' Polisi Cydlyniant, drwy 'ail-ddychwelyd' arian Ewropeaidd i Aelod Wladwriaethau cymharol gyfoethog yn cynnwys y DU, oherwydd nad yw er budd Cymru, y DU na'r Undeb Ewropeaidd yn ehangach. Mae gyrru adferiad economaidd a thwf cydlynol ar draws yr Undeb - yn unol â blaenoriaethau strategol Strategaeth Ewrop 2020 - yn gofyn am agwedd integredig ledled yr UE sy'n cydnabod pwysigrwydd llywodraethu ar sawl lefel. Mae Cymru wedi gwneud defnydd da o'r Cronfeydd Strwythurol sy'n bodoli, a byddai cymorth parhaus drwy Bolisi Cydlyniant yn datgloi potensial Cymru i roi nodau Ewrop 2020 ar waith sef, 'twf clyfar, cynaliadwy a chynhwysol', drwy roi hwb i ymchwil a datblygu, arloesedd a'r economi 'werdd', a drwy gefnogi datblygiad hyfforddiant a sgiliau angenrheidiol.

## Argymhellion i sefydliadau Ewropeaidd a chyrff cynrychioladol

Mae argymhellion 5 a 6 wedi'u cyfeirio at y Comisiwn Ewropeaidd. Cyfeirir argymhelliad 10 at Aelodau Senedd Ewrop. Mae argymhelliad 3 yn berthnasol i gynrychiolwyr Cymru mewn cyrff Ewropeaidd ffurfiol a rhwydweithiau anffurfiol – yn cynnwys cynrychiolwyr Pwyllgor y Rhanbarthau, y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig, Cynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop (CALRE), Cynhadledd y Rhanbarthau Ewropeaidd sydd â Phwerau Deddfu (REGLEG), Cynhadledd y Rhanbarthau Ymylol a Morol (CPMR), a'r rhwydwaith ROTOPI. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd â'r argymhellion.

## Argymhellion i Lywodraeth Cymru

Mae argymhellion 1, 2, 4, 7-9 ac 11-14 y Pwyllgor wedi'u cyfeirio at Lywodraeth Cymru. Cânt eu rhestru isod yn eu trefn yn yr adroddiad. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd â'r argymhellion.

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Bod Llywodraeth Cymru'n egluro sut orau i gynrychioli a hyrwyddo safiad Cymru ar unrhyw Bolisi Cydlyniant yn y dyfodol drwy weithio gyda rhanbarthau Ewropeaidd eraill mewn cyrff Ewropeaidd ffurfiol a rhwydweithiau anffurfiol fel REGLEG, CPMR a ROTOPI. **(Tudalen 14)**

**Argymhelliad 2.** Bod Llywodraeth Cymru'n egluro sut y mae wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid Cymreig a sut y mae am wneud y mwyaf o'r undod i eiriol dros fuddiannau Cymreig allweddol yn y cam hollbwysig nesaf o'r drafodaeth ar y Polisi Cydlyniant yn 2010-11. **(Tudalen 16)**

**Argymhelliad 3.** Bod cynrychiolwyr o Gymru mewn cyrff Ewropeaidd ffurfiol a rhwydweithiau anffurfiol yn ystyried y prif gasgliadau a'r argymhellion a nodir yn adroddiad y Pwyllgor hwn wrth hybu sefyllfa Cymru. **(Tudalen 16)**

**Argymhelliad 4.** Bod Llywodraeth Cymru'n egluro pa achos y bydd yn ei gyflwyno i a chyda Llywodraeth Glymblaid y DU dros barhau gyda Pholisi Cydlyniant ledled yr UE, gan gynnwys cael cynnig cyllid Cydgyfeirio i ranbarthau sy'n cymhwyso, ynghyd â threfniadau cyllid pontio, ar ôl 2013. **(Tudalen 18)**

**Argymhelliad 5.** Bod y Comisiwn Ewropeaidd yn ffurfio'i gynigion ar gyfer Polisi Cydlyniant yn y dyfodol ar sail prif gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor am bolisi ledled yr UE sy'n cynnwys pob rhanbarth, gan ymwrthod ag unrhyw ddadleuon ar gyfer ail-wladoli, a chefnogi parhad amcanion Cydgyfeirio, amcanion Cystadleurwydd ac amcanion Cyflogaeth, yn ogystal â chymorth pontio ar gyfer rhanbarthau sydd y tu allan i'r meini prawf cyllido ar gyfer yr amcanion hynny. **(Tudalen 18)**

**Argymhelliad 6.** Bod y Comisiwn Ewropeaidd yn cadarnhau y caiff Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) eu cadw fel rhan o Bolisi Cydlyniant yr UE oherwydd bod y cyfuniad yn golygu bod awdurdodau lleol a rhanbarthol yn gallu

ariannu ystod o gamau gweithredu ac ymyriadau integredig ar y ddaear er mwyn cefnogi cydlyniant tiriogaethol. **(Tudalen 20)**

**Argymhelliad 7.** Bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi eglurhad o amseriad unrhyw asesiad effaith llawn o raglenni Amcan 1 yng Nghymru; a'i chynlluniau i gymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o raglenni 2000-2006 a 2007-2013 yng Nghymru a rhannau eraill o'r UE i ddatblygiad rhaglenni yn y dyfodol. **(Tudalen 21)**

**Argymhelliad 8.** Bod Llywodraeth Cymru'n trafod gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru, gan gynnwys addysg uwch ac awdurdodau lleol, y manteision o ddefnyddio cyllid benthyciadau gan Fanc Buddsoddi Ewrop i'w helpu i fuddsoddi mewn meysydd allweddol fel ymchwil a datblygu ac ynni adnewyddadwy: hyn i gynnwys asesiad o ymarferoldeb datblygu cyd-gynigion prosiect er mwyn cael mas critigol. **(Tudalen 22)**

**Argymhelliad 9.** Bod Llywodraeth Cymru'n gofyn i Lywodraeth y DU sicrhau bod Casgliadau'r Cyngor Ewropeaidd ar Strategaeth Ewrop 2020 yn y dyfodol yn cydnabod yn glir y rôl sydd gan awdurdodau is-genedlaethol (lefelau lleol a rhanbarthol) i'w chwarae o ran sicrhau bod y strategaeth yn llwyddiant ar y ddaear. **(Tudalen 25)**

**Argymhelliad 10.** Bod Senedd Ewrop - yn benodol Aelodau Senedd Ewrop ac Aelodau'r Pwyllgor Datblygu Rhanbarthol - yn ystyried prif gasgliadau ac argymhellion yr adroddiad hwn yn eu trafodaethau ar Gyllideb yr UE yn y dyfodol, Ewrop 2020 a'r Polisi Cydlyniant. **(Tudalen 25)**

**Argymhelliad 11.** Bod Llywodraeth Cymru'n amlinellu ei chynlluniau: i roi'r arweiniad a'r cyfeiriad strategol angenrheidiol i wella cystadleurwydd a rhagoriaeth ymchwil a datblygu cymhwysol ym mhrifysgolion Cymru a'u trosglwyddo i fusnesau a chyflogaeth; datblygu cydweithio agosach rhwng y sectorau addysg uwch ac addysg bellach ac Adran Datblygu Economaidd Llywodraeth Cymru; a sicrhau bod ffrydiau ariannu i Gymru gan yr UE yn y dyfodol yn seiliedig ar gefnogi'r blaenoriaethau strategol hyn **(Tudalen 28)**

**Argymhelliad 12.** Bod Llywodraeth Cymru'n amlinellu sut y bydd yn rhoi mwy o gyfeiriad strategol i'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach i flaenoriaethu datblygu hyfforddiant a sgiliau mewn pynciau STEM ynghyd â mwy o ddarpariaeth gwyddoniaeth a thechnoleg, fel

rhan o'i strategaeth ehangach o wella hyfforddiant sgiliau lefel uwch yng Nghymru. **(Tudalen 30)**

**Argymhelliad 13.** Bod Llywodraeth Cymru'n datblygu dull 'Tîm Cymru' agosach o weithio mewn partneriaeth â'r sector addysg uwch, y sector busnes a llywodraeth leol yng Nghymru fel mater o frys, i sicrhau eu bod yn achub ar bob cyfle ariannu Ewropeaidd presennol ac yn y dyfodol i ddatblygu sgiliau STEM ac i annog ymchwil a datblygu ac arloesi yng Nghymru, gan gynnwys FP8. **(Tudalen 31)**

**Argymhelliad 14.** Bod Llywodraeth Cymru'n egluro sut y bydd yn sicrhau bod y sector addysg uwch yng Nghymru a phartneriaid strategol eraill yn cyfrannu'n ddi-oed at y broses o osod, ar gyfer Gwledydd yr Undeb a'r DU, y 'targedau pennawd cenedlaethol' a fydd yn codi o Strategaeth Ewrop 2020, ar ôl i'r Cyngor Ewropeaidd gytuno ar y strategaeth honno. **(Tudalen 31)**

## Cefndir

1. Yn Ionawr 2009, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i ddyfodol y Polisi Cydlyniant ar ôl 2013 a'r goblygiadau posibl i Gymru. Cyhoeddwyd adroddiad interim yn Rhagfyr 2009 a drafodwyd mewn cyfarfod llawn o'r Cynulliad ar 3 Chwefror 2010.

2. Mae cylch gorchwyl gwreiddiol yr ymchwiliad wedi eu cynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn. Ar 26 Ionawr 2010, cytunodd y Pwyllgor i ystyried yr Adolygiad a gynlluniwyd o Gyllideb yr UE, yn barod ar gyfer y drafodaeth ar y Persbectifau Ariannol ar ôl 2013, a Strategaeth Ewrop 2020 fel rhan o'r ymchwiliad. Dechreuwyd ar ail gam y broses casglu tystiolaeth ar 1 Mawrth, yr un wythnos ag y cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei strategaeth ddrafft ar Ewrop 2020, sef strategaeth economaidd 10 mlynedd ar gyfer Ewrop. Ysgrifennodd gyn Gadeirydd y Pwyllgor at yr Arlywydd Barroso mewn ymateb i ymgynghoriad blaenorol ar Ewrop 2020, i leisio pryderon ynghylch y diffyg cydnabyddiaeth i rôl y rhanbarthau.

## Cyd-destun - datblygiadau ers adroddiad cyntaf y Pwyllgor

3. Derbyniwyd ymatebion i adroddiad interim y Pwyllgor gan Lywodraeth Cymru a'r sefydliadau Ewropeaidd ym mis Rhagfyr ac Ionawr. Dywedodd Cabinet yr Arlywydd Barroso y byddai'r Polisi Cydlyniant "of key importance in delivering the new EU2020 agenda", gan ddarparu "unique added value through its multi-level partnership and multi-annual programming approach".

4. Effaith yr argyfwng ariannol ac economaidd yw'r prif destun siarad o hyd mewn trafodaethau ar ddyfodol Cyllideb a Pholisi Cydlyniant yr UE, gyda phwysau i helpu Aelod-Wladwriaethau sydd fwyaf mewn angen yn gyntaf. Dywedodd Cadeirydd Pwyllgor Datblygu Rhanbarthol Senedd Ewrop wrth y Pwyllgor hwn ei bod yn rhagweld trafodaethau 'poenus' ar y gyllideb yng nghyd-destun diffygion cyllideb yr UE. Mae'r pecyn o fesurau sadrwydd ariannol a gytunwyd arnynt ar 9 Mai mewn ymateb i argyfwng dyledion Gwlad Groeg yn cynnwys Mecanwaith Sadrwydd Ariannol Ewropeaidd o hyd at 750 biliwn ewro, ac mae'r sefyllfa ariannol ledled Ewrop yn parhau i fod yn gythryblus.

5. Pan gyhoeddodd Eurostat yr amcangyfrifon Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) am 2007 ar gyfer Aelod-Wladwriaethau a'u rhanbarthau yn Chwefror 2007, roedd yn agoriad llygad mawr i Gymru. Roedd y data'n dangos bod y DU gyfan wedi colli 3.6 pwynt canran o'i gymharu â ffigur 2006, ac ochr yn ochr â hyn, bod Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi colli 3.5 pwynt canran, gan felly ddisgyn o dan y trothwy 75 y cant ar gyfer parhau i dderbyn cyllid Cydgyfeirio, a chymryd bod maen prawf cymhwyso'r trothwy o 75 y cant CMC y pen ar gyfer y cylch cyllido presennol yn parhau ar ôl 2013. Mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu safiad ar dderbyn cyllid Cydgyfeirio yn y dyfodol pe bai Cymru'n cymhwyso, a hefyd ar gyllid pontio pe bai Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn codi dros y trothwy o 75 y cant y pen, pan gyhoeddir y ffigurau am 2008 a 2009 yn 2011 a 2012. Trafodir hyn ymhellach o dan 'materion allweddol' isod.

6. Mae sefydlu Llywodraeth Glymblaid rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol wedi creu cryn ansicrwydd ynghylch Llywodraeth newydd y DU a'i thrafodaethau yn y dyfodol ar Gyllideb yr UE a dyfodol y Polisi Cydlyniant ynghyd â'r cwestiwn ail-ddychwelyd/ail-wladoli. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor wedi gofyn am gael trafodaethau buan gydag Ysgrifennydd Gwladol newydd Cymru i wybod beth yw safiad Llywodraeth y DU ar y materion allweddol hyn a'i oblygiadau i Gymru. Mae'n bwysicach fyth bod y Pwyllgor yn lleisio barn rhanddeiliaid Cymreig am y syniad bod angen cael Polisi Cydlyniant llawn ledled yr UE yn y dyfodol, barn sy'n cael ei rhannu gan nifer dda o Aelod-Wladwriaethau a rhanbarthau Ewrop .

7. Bydd cytuno ar Strategaeth Ewrop 2020 yn gosod blaenoriaethau clir ar gyfer Polisi Cydlyniant yn y dyfodol. Y disgwyl oedd y byddai'r Cyngor Ewropeaidd yn mabwysiadu Ewrop 2020 ym mis Mehefin, ond ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae Senedd Ewrop am ohirio tan yr hydref fel y gall ei hystyried ymhellach cyn ei mabwysiadu. Disgwylir Dogfen Gyfathrebu ar Adolygiad Cyllideb yr UE erbyn diwedd yr hydref, i'w dilyn gan gynigion yn hanner cyntaf 2011 ar gyfer Fframwaith Persbectif Ariannol newydd i'w gytuno arno yn 2012. Disgwylir hefyd y bydd y Pumed Adroddiad ar Gydlyniant Economaidd a Chymdeithasol yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2010.

8. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi trafodaethau yn Senedd Ewrop ar symud o Bersbectif Ariannol 7 mlynedd ar gyfer Cyllideb yr UE, i un 5 mlynedd, a allai effeithio ar y cyfnod pontio ar gyfer cyllid yn y dyfodol. Byddai hyn yn cyflwyno'r posibilrwydd bod y Persbectif

Ariannol 2007-2013 presennol yn cael ei ymestyn am ddwy flynedd arall tan 2015, gyda chyfnod o bum mlynedd i ddilyn. Nid yw'r Pwyllgor wedi derbyn tystiolaeth o fomentwm sylweddol y tu ôl i'r cynnig hwn ond bydd yn parhau i gadw llygad ar y sefyllfa.

9. Ochr yn ochr ag ail adroddiad y Pwyllgor hwn, bydd Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn adrodd ar ganfyddiadau ymchwiliad ar wahân a wnaethpwyd ynghylch gweithredu'r rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 presennol yng Nghymru. Bydd yn bwysig bod y gwersi a ddysgwyd o'r ymchwiliad hwnnw'n cael eu hystyried yn y cynigion sydd yn yr arfaeth ar gyfer Polisi Cydlyniant yn y dyfodol.

10. Mae'n arwyddocaol hefyd bod Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i drafodaethau cyfochrog ar ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, sy'n elfen bwysig o gyllideb yr UE ac yn eithriadol bwysig i Gymru. Mae'r Pwyllgor hwn hefyd yn edrych ymlaen yn eiddgar at weld adroddiad yr ymchwiliad hwnnw'n cael ei gyhoeddi ganol mis Gorffennaf.

11. Yn ystod cam cyntaf yr ymchwiliad, roedd y Pwyllgor wedi nodi gyda diddordeb bod y cysyniad o "ranbarthau macro" wedi'i ddatblygu – cafodd Strategaeth Môr y Baltig ei mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor Ewropeaidd yn Hydref 2009, ac mae Strategaeth y Danube yn y broses o gael ei datblygu. Mae'n ddyddiau cynnar ar y gwaith hwn ac oherwydd na wyddom beth fydd goblygiadau llawn yr un o'r ddwy strategaeth, mae'n aneglur a fydd rhanbarthau macro'n elfennau cryf o unrhyw Bolisi Cydlyniant yn y dyfodol. Bydd y Pwyllgor yn parhau i ddilyn y mater hwn, gan nodi gwaith diweddar gan yr Aelod Pwyllgor Michael German AC, yn ei gapasiti fel aelod o'r Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig, a fu'n ymchwilio i bwysigrwydd a photensial "mannau economaidd rhanbarthol" o'r fath i'r DU ac i Iwerddon.

## Materion allweddol

### 1. Cefnogaeth gref i bolisi ledled yr UE: gwrthod ail-wladoli

12. Mae safiad y Pwyllgor ar gynnal dull ledled yr UE ar Bolisi Cydlyniant yn y dyfodol a gwrthod y dadleuon dros ail-wladoli unrhyw ran o'r polisi wedi'i gefnogi'n gryf gan dystiolaeth. Meddai Derek Vaughan, un o'r ASE dros Gymru:

"As a group of four Welsh MEPs, we are doing what we can at the moment. We have formed our own lobbying group and a number of us have questioned Barroso and the individual commissioners, including the budget commissioner and the commissioner for regional development, about their views on structural funds. The two commissioners now in place dismissed out of hand the idea of renationalising structural funds, and they are very much in favour of a regional policy covering all of Europe. So, that is positive for us. It does not mean the end of the story; there is still a lot of work to be done before we achieve what we want for Wales."[1]

13. Roedd Cadeirydd Pwyllgor Datblygu Rhanbarthol Senedd Ewrop wedi cadarnhau bod y dadleuon dros "ail-wladoli" cronfeydd yr UE i Aelod-Wladwriaethau wedi colli momentwm.[2] Mae'r Comisiynydd newydd dros Bolisi Rhanbarthol, Johannes Hahn, wedi nodi ei wrthwynebiad i ail-wladoli'r Polisi Rhanbarthol, gan bwysleisio er mwyn cwrdd ag amcanion yr UE, ei bod yn hanfodol cael dull integredig wedi'i ariannu'n ddigonol. Wrth siarad am gyfarfod diweddar a gafodd gyda'r Comisiynydd Hahn, meddai Prif Weinidog Cymru:

"…it was quite clear that the idea of reserving the highest level of structural funds for the poorest states was something that seemed to be off the table, in the light of points that had been made by you, in fact, Chair. Namely, that there are, within member states, areas of comparative poverty, and that simply looking at structural funds on a member state basis would be artificial. I think that the danger of that has passed. With these things, it is very difficult to predict what the final outcome of a debate might be."[3]

## 2. Rôl y rhanbarthau

14. Mae'r Pwyllgor yn nodi pa mor bwysig yw cael llais rhanbarthol cydgysylltiedig i hybu negeseuon allweddol ynghylch Polisi Cydlyniant yn y dyfodol. Mae Barn Pwyllgor y Rhanbarthau am ddyfodol y Polisi Cydlyniant a fabwysiadwyd ar 15 Ebrill yn adleisio nifer o negeseuon allweddol yn adroddiad interim y Pwyllgor, gan gynnwys galw am Bolisi Cydlyniant ledled yr UE i ddarparu cymorth i'r rhanbarthau i gyd, gyda ffocws ar y rhannau tlotaf o Ewrop; cynnal yr amcanion presennol a chanolbwyntio cymorth pontio ar gyn ranbarthau Cydgyfeirio.

---

[1] Derek Vaughan ASE, Paragraff 85, Trawsgrifiad 1 Mawrth 2010

[2] Paragraff 26, Trawsgrifiad 1 Mawrth 2010

[3] Paragraff 17, Trawsgrifiad 4 Mai 2010

15. Mae cyrff rhanbarthol pwysig eraill wedi galw am fwy o gydnabyddiaeth o’r rôl sy’n cael ei chwarae gan lywodraethau rhanbarthol a lleol a chan gynulliadau deddfu er mwyn sicrhau bod Strategaeth Ewrop 2020 yn llwyddiant ar y ddaear, yn ogystal â thanlinellu pwysigrwydd cael Polisi Cydlyniant ledled yr UE. Roedd y Gynhadledd o Gynulliadau Deddfu Rhanbarthol Ewropeaidd (CALRE) a'r Gynhadledd o Ranbarthau Ewropeaidd gyda Phŵer Deddfu (REGLEG) wedi cyflwyno ymatebion i ymgynghoriad y Comisiwn Ewropeaidd ar Ewrop 2020 ar y llinellau hyn.

16. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi derbyn tystiolaeth yn flaenorol ar waith ROTOPI - rhwydwaith anffurfiol o tua 30 o ranbarthau yn yr UE sy'n canolbwyntio ar ddyfodol y Polisi Cydlyniant ac sy'n cael ei gadeirio gan Ysgrifennydd Cyffredinol Cynhadledd y Rhanbarthau Ymylol a Morol (CPMR). Yn ei adroddiad interim, roedd y Pwyllgor wedi tanlinellu pa mor bwysig oedd bod Cymru’n cyfrannu at rwydweithiau o’r fath. Mae cynrychiolwyr o Lywodraeth Cynulliad Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn parhau i gyfrannu at waith y rhwydwaith anffurfiol hwn.

**Argymhelliad 1: Bod Llywodraeth Cymru’n egluro sut orau i gynrychioli a hyrwyddo safiad Cymru ar unrhyw Bolisi Cydlyniant yn y dyfodol drwy weithio gyda rhanbarthau Ewropeaidd eraill mewn cyrff Ewropeaidd ffurfiol a rhwydweithiau anffurfiol fel REGLEG, CPMR a ROTOPI.**

## 3. Dull ‘Tîm Cymru’

17. Yn ei adroddiad cyntaf, roedd y Pwyllgor wedi pwysleisio pa mor bwysig oedd gweithio’n agos gyda Senedd Ewrop, gan gynnwys gydag Aelodau dros Gymru o Senedd Ewrop a Phwyllgorau perthnasol Senedd Ewrop, swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd a Phwyllgor y Rhanbarthau. Roedd cyfarfod y Pwyllgor ym Mrwsel ar 1 Mawrth ar Ddydd Gŵyl Dewi yn gyfle pwysig i ymgysylltu â’r rhanddeiliaid hyn. Dangosodd bob un o’r pedwar Aelod dros Gymru o Senedd Ewrop ymrwymiad cryf i weithio gyda’i gilydd mewn ffordd amhleidiol i ddiogelu buddiannau Cymru yng nghyswllt y Polisi Cydlyniant:

> “We have made a very good start on this campaign. The fact that we are working together on a cross-party campaign is crucial. The commission and all those in the European Parliament involved in this are certainly well aware of the

importance of Wales retaining this funding and getting a better deal in future."[4] Jill Evans ASE, Plaid Cymru.

"I will be fighting alongside my colleagues to ensure that our money comes back to Wales in the regions where we need it."[5] John Bufton ASE, UKIP.

"It is important that we have this joined-up working, because there are only four of us. It is a huge nation to cover and we need to ensure that we are doing it properly. Without that communication, we would not be performing as well as we are hopefully starting to do now."[6] Dr Kay Swinburne ASE, Y Blaid Geidwadol.

18. Cyfeiriodd Derek Vaughan, ASE Llafur, hefyd at bwysigrwydd creu perthynas agos gyda'r rhanbarthau a'r gwledydd sy'n debyg i Gymru i siarad am gronfeydd strwythurol,[7] a dywedodd fod hyn yn rhywbeth yr oeddent yn ei wneud yn Senedd Ewrop drwy sefydlu grŵp lobio i ddadlau'r achos dros gronfeydd strwythurol ar ôl 2013. Siaradodd wedyn am Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud rhywbeth tebyg:

"We shall do what we can, but the Welsh Assembly Government and the National Assembly for Wales need to work together. Perhaps you could make contact with other, similar regions or countries to do some lobbying there. Local government also has an important part to play… There are different levels where we can work together, and the more that we can do that, the more influence that we shall have."[8]

19. Mae'r Pwyllgor o blaid parhau gyda'r dull 'Tîm Cymru' o hyrwyddo buddiannau Cymru yn y drafodaeth ar bolisi. Prif Weinidog Cymru oedd y Gweinidog cyntaf yn y DU i gyfarfod â'r Comisiynydd newydd dros Bolisi Rhanbarthol, Johannes Hahn, ac mae'r Pwyllgor am weld deialog gref yn parhau rhwng Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid Cymreig a'r sefydliadau Ewropeaidd.

[4] Paragraff 94, Trawsgrifiad 1 Mawrth 2010
[5] Paragraff 108, Trawsgrifiad 1 Mawrth 2010
[6] Paragraff 124, Trawsgrifiad 1 Mawrth 2010
[7] Paragraff 117, Trawsgrifiad 1 Mawrth 2010
[8] Paragraff 118, Trawsgrifiad 1 Mawrth 2010

**Argymhelliad 2: Bod Llywodraeth Cymru'n egluro sut y mae wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid Cymreig a sut y mae am wneud y mwyaf o'r undod i eiriol dros fuddiannau Cymreig allweddol yn y cam hollbwysig nesaf o'r drafodaeth ar y Polisi Cydlyniant yn 2010-11.**

**Argymhelliad 3: Bod cynrychiolwyr o Gymru mewn cyrff Ewropeaidd ffurfiol a rhwydweithiau anffurfiol yn ystyried y prif gasgliadau a'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad Pwyllgor hwn wrth hybu sefyllfa Cymru.**

## 4. A fydd Cymru'n gymwys i gael cyllid 'Cydgyfeirio' yn y dyfodol?

20. Mae'r Pwyllgor wedi argymell yn flaenorol, yng ngoleuni effaith yr argyfwng ariannol ac economaidd ar ranbarthau Ewrop, y dylid ystyried ymhellach y defnydd a wneir o ddata CMC cymharol y pen, am y tair blynedd 2007, 2008 a 2009, fel y maen prawf cymhwyso. Dywedodd Prif Weinidog Cymru wrth y Pwyllgor yn ystod ei drafodaethau â'r Comisiynydd newydd dros Bolisi Rhanbarthol, Johannes Hahn, ei fod wedi codi'r cwestiwn hwn a'i fod yn glir iddo nad oedd y Comisiwn yn bwriadu symud i ffwrdd o CMC cymharol y pen.[9] Roedd Derek Vaughan ASE yn cytuno â'r farn hon yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 1 Mawrth:

> "My understanding, following discussions with various colleagues in the Commission, is that they will still want to use the GDP figures as the criterion."[10]

21. Codwyd y cwestiwn a fydd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer cyllid 'Cydgyfeirio' ar 18 Chwefror pan gyhoeddodd Eurostat ddata ar CMC ar gyfer 2007. Dangosodd y ffigurau hyn ddirywiad cymharol yn CMC Cymru o'i gymharu â'r ffigur cyfartalog ar gyfer UE27, gyda Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn disgyn o dan y trothwy o 75% ar gyfer rhanbarthau Cydgyfeirio, i lawr i 73.4% o 76.9% yn 2006. Roedd Dwyrain Cymru hefyd wedi gweld dirywiad, gan ddisgyn o 112.8% o'r cyfartaledd UE27 yn 2006 i 110.3% yn 2007. Roedd y Comisiwn wedi trafod y rhesymau posibl dros y gostyngiad o 3.5 pwynt canran yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd gyda Llywodraeth Cymru, ac mae'r Cadeirydd wedi ysgrifennu at Ddirprwy Brif Weinidog Cymru yn gofyn am eglurhad pellach ar y rhesymau ystadegol ac economaidd sydd y tu ôl i'r newid siarp hwn ar lefel y DU a Chymru.

---

[9] Paragraff 35, Trawsgrifiad 4 Mai 2010
[10] Paragraff 87, Trawsgrifiad 1 Mawrth 2010

22. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i edrych i weld a fydd cyllid Cydgyfeirio o ryw fath ar gael os bydd Cymru'n gymwys i'w dderbyn, a pha drefniadau pontio fydd ar gael i ranbarthau sy'n codi dros y trothwy cymhwyso presennol o 75% CMC. Roedd yr ASE Derek Vaughan wedi disgrifio hyn fel y 'dull deuol':

> "First, we say that structural funds should continue to be made available to regions that qualify post 2013, but also that transitional status should be made available to regions that are falling out of convergence status. We have always followed that approach, and I, personally, want to continue to follow that…because we are not sure what the 2008-09 figures will be."[11]

23. Roedd Jill Evans ASE hefyd wedi pwysleisio pa mor bwysig oedd cael y fargen orau bosibl i Gymru:

> "The GDP figures have changed the situation but…we have to look at both scenarios. Our main concern is getting the best deal for Wales. We want a future structure from which Wales will get the maximum amount of funding possible because we qualify for that funding. I was looking at the GDP figures this morning and we have the lowest in the whole of the UK. So, we certainly have to fight to get the best deal possible, and in terms of whether that is new convergence funding or transitional funding, we must ensure that both options are available."[12]

## 5. Cyllid Pontio

24. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried yr amrywiol gynigion ar gyfer cyllid pontio i'r rhanbarthau hynny sy'n croesi dros y trothwy 75 y cant i fod yn gymwys ar gyfer cyllid Cydgyfeirio. Yn ôl Barn Pwyllgor y Rhanbarthau am ddyfodol y Polisi Cydlyniant

> "appropriate and fair transitional arrangements must be put in place under the convergence objective so that support does not stop abruptly once the 75 percent threshold has been reached and also to give the regions the security they need to further boost their competitiveness."

[11] Paragraff 87, Trawsgrifiad 1 Mawrth 2010
[12] Jill Evans ASE, Paragraff 93, Trawsgrifiad 1 Mawrth 2010

25. Yn ei hymateb i adroddiad cyntaf y Pwyllgor, roedd Llywodraeth y Cynulliad wedi dweud y byddai'n "continue to discuss with the UK Government both the form and timing of potential transitional arrangements", ac "examine the various models" ar gyfer cyllid pontio.[13]

26. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 4 Mai, dywedodd Prif Weinidog Cymru, er mai'r nod yn y pen draw oedd gweld lefel ffyniant economaidd cymharol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gwella fel na fyddai'r ardal yn cymhwyso ar gyfer cyllid Cydgyfeirio o ryw fath yn y dyfodol oherwydd bod ei lefel CMC cymharol wedi codi, ei bod hefyd yn bwysig cael mynediad at gyllid pontio er mwyn 'glanio ar rywbeth meddal', pe bai'r llwyddiant hwnnw'n digwydd. Ni chafwyd gwybod eto sut fath o fodelau cyllid pontio y byddai Llywodraeth Cymru yn eu hystyried i fod yn foddhaol.

27. Dywedodd Prif Weinidog Cymru hefyd pa mor bwysig oedd sicrhau bod cyllid cystadleurwydd a chyflogaeth rhanbarthol yn cael ei ymestyn y tu allan i Orllewin Cymru a'r Cymoedd:

> "building on the back of the old Objective 2 funding to ensure that there is also an element of structural funding available for those parts of Wales".[14]

**Argymhelliad 4: Bod Llywodraeth Cymru'n egluro pa achos y bydd yn ei gyflwyno i a chyda Llywodraeth Glymblaid y DU dros barhau â Pholisi Cydlyniant ledled yr UE, gan gynnwys cael cynnig cyllid Cydgyfeirio i ranbarthau sy'n cymhwyso, ynghyd â threfniadau cyllid pontio, ar ôl 2013.**

**Argymhelliad 5: Bod y Comisiwn Ewropeaidd yn ffurfio'i gynigion ar gyfer Polisi Cydlyniant yn y dyfodol ar sail prif gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor am bolisi ledled yr UE sy'n cynnwys pob rhanbarth, gan ymwrthod ag unrhyw ddadleuon ar gyfer ail-wladoli, a chefnogi parhad amcanion Cydgyfeirio, amcanion Cystadleurwydd ac amcanion Cyflogaeth, yn ogystal â chymorth pontio ar gyfer rhanbarthau sydd y tu allan i'r meini prawf cyllido ar gyfer yr amcanion hynny.**

---

[13] Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Interim y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar yr Ymchwiliad i Ddyfodol y Polisi Cydlyniant: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid.htm?act=dis&id=163819&ds=1/2010

[14] Paragraff 12, Trawsgrifiad 4 Mai 2010

## 6. ERDF ac ESF fel rhan o'r Polisi Cydlyniant

28. Roedd adroddiad interim y Pwyllgor wedi nodi ei gefnogaeth i gadw ERDF ac ESF fel elfennau o bolisi cydlyniant yr UE, oherwydd bod y cyfuniad yn golygu bod awdurdodau lleol a rhanbarthol yn gallu ariannu ystod eang o weithredu ac ymyriadau ar y ddaear. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod y mater hwn yn cael ei drafod ym Mrwsel, ac mai un syniad yn y Comisiwn Ewropeaidd yw bod yr ESF, a sefydlwyd drwy gytuniad ym 1957, yn dod yn annibynnol ar weddill y Polisi Rhanbarthol, gyda'r goblygiad ei fod yn dod yn fwy rhan o flaenoriaethau cyflogaeth a hyfforddiant Aelod-Wladwriaethau. Roedd Cadeirydd Pwyllgor Datblygu Rhanbarthol Senedd Ewrop wedi lleisio pryderon ar y pwynt hwn:

> "We need a social fund with very clear tasks on delivery, but we badly need the social fund to be active through the commission's priority programmes, being very active in the cohesion policy, and not just being left to the member states to be used." [15]

29. Roedd Prif Weinidog Cymru hefyd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd yr ESF fel rhan o ddull integredig o ddatblygu economaidd:

> "…you cannot divorce social and economic policy; they are one and the same. For example, ReAct is funded through the European social fund, yet it also clearly has an economic basis. Surely, the more economic activity that you get, the easier it becomes to promote social cohesion, so I would want to see them work together."[16]

30. Roedd yr Athro Hübner wedi ehangu ar y mater hwn o ran edrych ar gronfeydd cyllid eraill gan yr UE. Galwodd am ddull integredig o ddatblygu drwy osod y gwahanol bolisïau ac offerynnau ariannu sydd ar gael mewn un fframwaith.

31. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'n gryf y safiad a gyflwynir ym Marn Pwyllgor y Rhanbarthau am ddyfodol y Polisi Cydlyniant,[17] ac fel yr argymhellir yn ei adroddiad interim cyntaf, mae angen cadw'r ERDF a'r ESF yn y Polisi Cydlyniant.

---

[15] Prof Hübner, Paragraffau 50-51, Trawsgrifiad 1 Mawrth 2010
[16] Prif Weinidog Cymru, Paragraff 18, Trawsgrifiad 4 Mai 2010
[17] http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-eur-home/bus-committees-third-eur-agendas.htm?act=dis&id=176660&ds=5/2010

**Argymhelliad 6: Bod y Comisiwn Ewropeaidd yn cadarnhau y caiff Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) eu cadw fel rhan o Bolisi Cydlyniant yr UE oherwydd bod y cyfuniad yn golygu bod awdurdodau lleol a rhanbarthol yn gallu ariannu ystod o gamau gweithredu ac ymyriadau integredig ar y ddaear er mwyn cefnogi cydlyniant tiriogaethol.**

## 7. Y bygythiad posibl i Gymru: blaenoriaethu ardaloedd trefol

32. Mae'r Pwyllgor wedi edrych ar ddiddordeb y Comisiynydd Hahn mewn darparu cymorth i ddinasoedd Ewropeaidd, ac awgrymiadau y gallai rhyw fath o brosiect Cymunedol, efallai i olynu'r rhaglen URGAN, fod yn rhan o Bolisi Cydlyniant yn y dyfodol. Gallai neilltuo unrhyw gyllid i ardaloedd difreintiedig yn y dinasoedd mwy fod yn andwyol i ardaloedd datblygu rhanbarthol Ewropeaidd fel Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Fodd bynnag mae'r Pwyllgor wedi'i gysuro gan dystiolaeth, gan gynnwys yr hyn a ddywedodd Prif Weinidog Cymru, "there does not appear to be any intention to divert some of the present convergence funding to some of the bigger cities."[18]

## 8. Dysgu Gwersi o'r rhaglenni presennol

33. Cafodd Cadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan eu holi ynghylch unrhyw wersi allai rhaglenni'r dyfodol eu dysgu gan raglenni presennol a blaenorol y Cronfeydd Strwythurol. Un o'r gwersi cynnar oedd yr amser hir rhwng cymeradwyo'r prosiect a'i weithredu ar y ddaear, a gweld o fewn cyfyngiadau'r gofyniad rheoleiddio beth arall y gellid ei wneud i sicrhau bod rhaglenni'n 'taro tra bo'r haearn yn boeth'. Roedd manteision ac anfanteision i'r dull 'o'r gwaelod i fyny' a ddefnyddiwyd gyda rhaglenni 2000-2006 a chyfeiriad strategol mwy 'o'r brig i lawr' y cylch 2007-2013, felly mae'n debyg mai rhywle yn y canol oedd y dull cywir.[19]

34. Er bod gwerthusiad canol tymor wedi'i wneud o brosesau Amcan 1, ystyriwyd bod asesiad effaith llawn o raglenni 2000-2006 yn hanfodol i ddysgu o wersi'r gorffennol ac i osgoi ail-greu'r olwyn[20]. Roedd Prif Weinidog Cymru yn teimlo ei bod yn rhy fuan i wneud asesiad o effaith y rhaglenni 2007-2013 presennol, ond roedd grŵp cynghori ar werthuso a grŵp darparu a chydymffurfio wedi eu sefydlu i

[18] Paragraff 17, Trawsgrifiad 18 Mai 2010
[19] Paragraff 17, Trawsgrifiad 18 Mai 2010
[20] Paragraff 20, Trawsgrifiad 18 Mai 2010

ganolbwyntio ar eu cynaliadwyedd yn y tymor hir ac i sicrhau bod strategaethau ymadael yn eu lle.

**Argymhelliad 7: Bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi eglurhad o amseriad unrhyw asesiad effaith llawn o raglenni Amcan 1 yng Nghymru; a'i chynlluniau i gymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o raglenni 2000-2006 a 2007-2013 yng Nghymru a rhannau eraill o'r UE i ddatblygiad rhaglenni yn y dyfodol.**

## 9. "Diwylliant grantiau" yn erbyn benthyciadau cylchol

35. Mae'r Pwyllgor wedi clywed llawer am y ffaith y bydd rhaglenni yn y dyfodol yn symud i ffwrdd o'r "diwylliant grantiau" a thuag at fenthyciadau cylchol gan nodi bod Banc Buddsoddi Ewrop (EIB), corff sy'n annibynnol ar y Comisiwn Ewropeaidd ac wedi'i berchenogi gan Aelod-Wladwriaethau, wedi chwarae rhan bwysig yn y trafodaethau ar ddyfodol y Polisi Cydlyniant ym Mrwsel.

36. Dengys y dystiolaeth bod y defnydd a wneir o fenthyciadau gan y Banc hwn yng Nghymru yn isel o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU, a bu'r Pwyllgor yn trafod y rhesymau dros hyn gyda chynrychiolwyr o'r Banc. Ymhlith y rhesymau y cyfeiriwyd atynt oedd diffyg partneriaethau preifat-cyhoeddus yng Nghymru, a fu'n elfen bwysig o fenthyca mewn rhannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, dywedodd Is-Lywydd y Banc fod y banc mewn penbleth braidd ynghylch pam nad oedd yn cael gymaint o geisiadau am fenthyciadau o Gymru. Nid oedd unrhyw elyniaeth tuag at y syniad o fenthyca ac roedd y Banc yn barod i gyfarfod ag unrhyw un oedd am fenthyg i drafod y cyfleoedd. Roedd canlyniadau buddsoddi cynnar gan Gyllid Cymru hefyd wedi dangos yn glir bod ganddo'r sgiliau a'r capasiti yng Nghymru i weithredu fel rheolwr cronfa, o ran derbyn benthyciadau mwy gan y Banc i fewnfuddsoddi mewn cwmnïau bach a chanolig a oedd angen cyllid arnynt i ehangu.

37. Roedd y Banc wedi cadarnhau y gallai helpu i ariannu prosiectau yng Nghymru i gwrdd â blaenoriaethau Ewrop 2020 fel sefydlu cyfleusterau ymchwil a datblygu, lleihau carbon ac ynni adnewyddadwy. Y cwestiynau a oedd yn codi oedd dod o hyd i fenthycwyr addas yng Nghymru a allai dderbyn cyfrifoldeb dros ddarparu'r prosiect a chyda'r modd i reoli a thalu'r benthyciad yn ôl, ac yn anad dim, bod maint y benthyciad yn ddigon mawr i fod yn ariannol hyfyw, yn ddelfrydol dros £50 miliwn.

38. Cyfeiriodd y Banc at gonsortiwm ym Manceinion o 17 o awdurdodau gwastraff a oedd ar y raddfa angenrheidiol, a bod angen i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru gydweithredu ar baratoi cyd-

gynigion prosiect fel y gallent fanteisio ar y cyllid benthyciad ffafraethol oedd yn cael ei gynnig gan y Banc AAA hwn.

39. Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi ysgrifennu at Is-Gangellorion y Prifysgolion ac at y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes i dynnu eu sylw at y mater hwn ac i annog sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i ystyried cyfuno i wneud un cais ar y cyd am becyn o brosiectau gwerth dros £50 miliwn, ac i drafod y posibiliadau hyn gyda'r Banc.

**Argymhelliad 8: Bod Llywodraeth Cymru'n trafod gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru, gan gynnwys addysg uwch ac awdurdodau lleol, y manteision o ddefnyddio cyllid benthyciadau gan Fanc Buddsoddi Ewrop i'w helpu i fuddsoddi mewn meysydd allweddol fel ymchwil a datblygu ac ynni adnewyddadwy: hyn i gynnwys asesiad o ymarferoldeb datblygu cyd-gynigion prosiect er mwyn cael mas critigol.**

## 10. Strategaeth Ewrop 2020 a Pholisi Cydlyniant

40. Y disgwyl yw y bydd Strategaeth Ewrop 2020 yn dangos y ffordd ar gyfer unrhyw Bolisi Cydlyniant yn y dyfodol, ac y bydd Polisi Cydlyniant yn hollbwysig i'w darparu.[21]

41. Er bod cefnogaeth eang i'r blaenoriaethau yn y strategaeth ddrafft, roedd Jill Evans ASE wedi lleisio pryderon ynghylch diffyg cydnabyddiaeth o ystyriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol, gan nodi er bod gan Lywodraeth Cymru strategaethau ar ddatblygu 'swyddi gwyrdd' ac ynni adnewyddadwy, bod Strategaeth Ewrop 2020 prin yn sôn am y mater olaf. Cyfeiriodd Derek Vaughan ASE at y diffyg pwyslais ar bolisi cymdeithasol a chyflogaeth, ac er bod twf a swyddi'n bwysig, bod cyllid ar gyfer seilwaith hefyd yn bwysig i Gymru.

42. Lleisiwyd pryderon hefyd ynghylch sut byddai'r strategaeth yn cael ei darparu ac a oedd yn rhoi digon o gydnabyddiaeth i rôl y chwaraewyr rhanbarthol a lleol. Meddai Dirprwy Brif Weinidog Cymru:

> "Although the proposal that has come forward has marginally moved in our direction, by at least recognising the role of regional governments and local authorities, the delivery of some of the key instruments, particularly relating to education, skills and research and development, we believe that there is still a lot more work to be done there and we still have some

---

[21] Danüta Hübner ASE, Paragraff 11, Trawsgrifiad 1, Mawrth 2010

concerns about how these things are developing. Some of the targets in the new document seem to be extremely ambitious, bearing in mind that we are coming out of a fairly major recession.”.[22]

43. Mynegwyd sawl barn wahanol am amseriad y strategaeth ddrafft. Roedd Cadeirydd Pwyllgor Datblygu Rhanbarthol Senedd Ewrop yn poeni am ddiffyg brys llwyr[23] a diffyg trefniadau darparu ar gyfer yr amcanion hirsefydlog yn Ewrop 2020,[24] ac roedd gan Jill Evans ASE bryderon dwfn ei bod wedi’i chyhoeddi heb asesu’n iawn beth oedd wedi mynd o’i le gyda’r strategaeth flaenorol sef Strategaeth Twf a Swyddi Lisbon.[25]

44. Roedd y Pwyllgor wedi trafod y cydbwysedd rhwng yr angen taer i drechu’r argyfwng economaidd gyda mesurau mwy tymor byr a chael strategaeth tymor canolig-hirdymor ar gyfer twf cynaliadwy. Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Rhanbarthol yn glir pa mor bwysig oedd ysgogiad ariannol i sicrhau twf economaidd cynaliadwy:

> “We all know that billions—and some say trillions—of euros are being pumped into the economy through all sorts of public interventions, and if we do not see all those crisis-related funds building competitiveness and the long-term sustainable development of Europe, we might risk a lost decade, which we just cannot afford.”[26]

45. Nes ymlaen holwyd Pennaeth Swyddfa’r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru ynghylch y gwrthdaro posibl rhwng polisïau macro-economaidd sydd wedi eu hanelu at gyflawni sadrwydd ariannol a lleihau diffygion ariannol - gan gynnwys drwy'r Cytundeb ar Sefydlogrwydd a Thwf - a'r polisïau meicro-economaidd i sicrhau twf sydd yn y strategaeth. Dywedodd nad oedd unrhyw wrthdaro oherwydd byddai’r ddau fath o bolisi wedi eu hanelu at yr un amcanion twf, fel cynhyrchu economi fwy gwyrdd a mwy o gyflogaeth.[27]

[22] Dirprwy Brif Weinidog Cymru, Paragraff 96, Trawsgrifiad 16 Mawrth 2010
[23] Danüta Hübner ASE, Paragraff 12, Trawsgrifiad 1, Mawrth 2010
[24] Paragraff 14, Trawsgrifiad 1 Mawrth 2010
[25] Jill Evans ASE, Paragraff 91, Trawsgrifiad 1, Mawrth 2010
[26] Yr Athro Hübner ASE, Paragraff 13, Trawsgrifiad 1 Mawrth 2010
[27] Paragraff 45, Trawsgrifiad 16 Mawrth 2010

## 11. Llywodraethu ar sawl lefel

46. Yn ei adroddiad interim, roedd y Pwyllgor yn galw ar y Comisiwn Ewropeaidd i ddefnyddio strwythurau llywodraethu presennol y rhaglenni rhanbarthol o dan Bolisi Cydlyniant yr UE i ddelio â'r "diffyg llywodraethu" yn Strategaeth Lisbon. Beirniadwyd Strategaeth Lisbon am fethu â chydnabod rôl allweddol yr awdurdodau lleol a rhanbarthol yn gweithredu'r strategaeth ar y ddaear. Fodd bynnag, roedd yr Athro Danuta Hübner ASE wedi beirniadu'r Strategaeth Ewrop 2020 ddrafft fel dogfen wan o ran nad oedd yn cydnabod amrywiaeth yn yr UE, a phwysigrwydd llywodraethu ar sawl lefel:

> "It completely ignores the existing multilevel governance in the European Union; there is no space for the role of local and regional levels of Europe. There is no role for partners, without whom we will probably not achieve any change in Europe. Among those partners there are those who are the real drivers for growth; businesses, academia, and university structures."[28]

47. Roedd yr Athro Hübner wedi pwysleisio pa mor bwysig oedd y lefel ranbarthol a lleol fel "cyd-berchnogion" Strategaeth Ewrop 2020 i sicrhau twf ym mhob rhan o Ewrop, ac mai polisi rhanbarthol oedd y prif gyfrwng i sicrhau cydlyniant yn Ewrop.

48. Er ei bod o blaid delio â "themâu" drwy'r polisi, roedd yr Athro Hübner wedi gwrthod y dull thematig neu sectorol o ddarparu strategaeth a fyddai'n cael ei rhedeg o Frwsel, gan ddadlau'n hytrach dros barhau gyda dull integredig ar sail "lle" i ddarparu ar lefel ranbarthol:

> "…if you really want cities to deliver a reduction in emissions to help mitigate the effects of climate change, then you need research and you need sustainable transport, you need to think about housing, insulation, heating, energy—all of those things come together."[29]

49. Mae'r Pwyllgor yn gryf o blaid dull integredig ar sail lle o ddarparu targedau Ewrop 2020 ar dwf, arloesi a swyddi ar lefel ranbarthol a thrwy raglenni cronfeydd strwythurol. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn Ewropeaidd, wrth lunio dulliau darparu ar gyfer cyflawni'r targedau yn Strategaeth Ewrop 2020 yn cydnabod yn llawn bod

[28] Paragraff 16, Trawsgrifiad 1 Mawrth 2010
[29] Paragraff 41, Trawsgrifiad 1 Mawrth 2010

rhanbarthau'n hollol abl i ddarparu'r targedau hynny gyda chyllid gan yr UE.

50. Mae'r Pwyllgor yn croesawu penderfyniad Senedd Ewrop ynghylch cyfraniad y Polisi Cydlyniant at Strategaeth Ewrop 2020, gan argymell cyfuno blaenoriaethau wrth gadw'r hyblygrwydd i ystyried gwahaniaethau rhanbarthol ac anghenion rhanbarthau gwannach. Mae hefyd yn croesawu ei hail gynnig a dderbyniwyd ar 16 Mehefin, sy'n galw am gydnabyddiaeth o rôl y rhanbarthau o ran diffinio a gweithredu'r strategaeth. Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw Casgliadau'r Cyngor Ewropeaidd ar Strategaeth Ewrop 2020 a dderbyniwyd ar 17 Mehefin yn cydnabod yn benodol y rôl sydd gan awdurdodau is-genedlaethol (lefelau lleol a rhanbarthol) i'w chwarae o ran sicrhau bod y strategaeth yn llwyddiant ar y ddaear.

**Argymhelliad 9: Bod Llywodraeth Cymru'n gofyn i Lywodraeth y DU sicrhau bod Casgliadau'r Cyngor Ewropeaidd ar Strategaeth Ewrop 2020 yn y dyfodol yn cydnabod yn glir y rôl sydd gan awdurdodau is-genedlaethol (lefelau lleol a rhanbarthol) i'w chwarae o ran sicrhau bod y strategaeth yn llwyddiant ar y ddaear.**

**Argymhelliad 10: Bod Senedd Ewrop – yn benodol Aelodau Senedd Ewrop ac Aelodau'r Pwyllgor Datblygu Rhanbarthol - yn ystyried prif gasgliadau ac argymhellion yr adroddiad hwn yn eu trafodaethau ar Gyllideb yr UE yn y dyfodol, Ewrop 2020 a'r Polisi Cydlyniant.**

## 12. Gweithredu Ewrop 2020 yng Nghymru

51. Yn ail gam yr ymchwiliad, mae'r Pwyllgor wedi derbyn tystiolaeth gan y sector addysg uwch a'r sectorau masnachol ar rôl arian Ewropeaidd ar gyfer ymchwil a datblygu, arloesi a'r agenda sgiliau. Mae'n cydnabod bod y meysydd hyn yn rhai lle mae Cymru eisoes yn gwneud cynnydd da gyda chymorth gan gyllid presennol o'r Cronfeydd Strwythurol ond y bydd angen i Bolisi Cydlyniant yn y dyfodol ganolbwyntio ar hyrwyddo ymchwil a datblygu ac arloesi a'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith hwn.

## Yr Undeb Arloesi

52. Un o'r prosiectau blaenllaw yn y Strategaeth Ewrop 2020 ddrafft yw 'Undeb Arloesi' - ail-ganolbwyntio'r polisi ymchwil a datblygu ac arloesi ar y sialensau sy'n wynebu ein cymdeithas heddiw.

53. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, roedd Dr Kay Swinburne ASE wedi pwysleisio pa mor bwysig oedd cyllid rhanbarthol yn y dyfodol i gynnal a datblygu prosiectau ymchwil a datblygu, fel bod Cymru'n gallu elwa o glystyrau ymchwil i ysgogi datblygu economaidd. Daeth tystiolaeth o blaid y dull hwn gan Optic Glyndŵr, a chan Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe:

> "…currently 50 per cent of Welsh research and development takes place in its Universities. Across the whole of the UK the figure is only 26 per cent….We do not have large companies in Wales undertaking research and development, which is a critical part of the modern knowledge economy. Barriers would have to be broken down on all sides: in universities, in the Government and in large companies. It takes time to establish trust to develop the sort of partnerships that could bring about great rewards if we got our act together totally."[30]

54. Prosiect trosglwyddo technoleg yng Ngogledd Cymru yw Optic Glyndŵr, a sefydlwyd yn wreiddiol fel Optic Technium o dan Raglen Amcan Un 2000-2006, ac sydd wedi cael ei redeg gan Brifysgol Glyndŵr ers y ddwy flynedd diwethaf. Mae wedi'i leoli "oddi ar y campws" ym Mharc Busnes Llanelwy yn Sir Ddinbych (yn ardal Gydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) gan greu swyddi yn y Gogledd drwy sefydlu a chynnal clwstwr optoelectroneg, a darparu proses trosglwyddo technoleg o'r brifysgol i'r byd masnachol. Disgrifiwyd y wyddoniaeth a gyflawnir yn Optic Glyndŵr fel ymhlith y gorau yn y byd ac mae yno brosiect datblygu ar hyn o bryd a allai fod yn werth €200 miliwn mewn cynhyrchu, gyda'r potensial i greu swyddi a refeniw i'r Brifysgol drwy drefniadau trwyddedu.

55. Roedd Prifysgol Glyndŵr wedi pwysleisio pa mor bwysig oedd bod yr ardal Gydgyfeirio yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn parhau i dderbyn cyllid, o ran gallu cynllunio'n hirdymor i adeiladu'r diwydiant yn fas critigol, gweld y contractau datblygu'n dwyn ffrwyth, datblygu technolegau ymchwil a datblygu deilliedig pwysig, gan gynnwys cymwysiadau 'ynni gwyrdd', a datblygu busnesau a chyflogaeth yn sgil hyn oll.

56. Mae Sefydliad Gwyddorau Bywyd Prifysgol Abertawe yn enghraifft arall o ddatblygu strategol pwysig mewn partneriaeth â Llywodraeth, cwmnïau mawr, cwmnïau bach a chanolig a'r Brifysgol. Ond yn ôl Is-

[30] Paragraff 90, Trawsgrifiad 4 Mai 2010

Ganghellor y Brifysgol roedd enghreifftiau fel hyn yn 'brin', a bod Llywodraeth Cymru'n gweithredu fel 'funder rather than a partner'.[31]

57. Roedd cyfeiriad strategol yn cael ei weld fel ffactor allweddol – nid yw prifysgolion a Llywodraeth Cymru wedi eu cyplysu'n effeithiol, naill ai'n strategol neu'n weithredol, fel rhan o ddull "Tîm Cymru" o gywiro gwendidau economaidd. Roedd tystiolaeth gan y ddwy brifysgol yn tynnu sylw at y ffaith y gallai twf cynaliadwy gymryd blynyddoedd lawer i ddigwydd, ond mae Parc Gwyddoniaeth Barcelona wedi cael ei sefydlu'n llwyddiannus mewn llai na 30 mlynedd, ac yn ôl pennaeth ymchwil ac arloesi Abertawe nid yw anelu at fanteision hirdymor yn golygu aberthu manteision tymor byr. Roedd yr Athro Davies wedi nodi'r gwahaniaeth rhwng amcanion cymharol dymor byr y cyllid strwythurol a datblygu economaidd tymor canolig i hir:

> "…using the short-term objectives of European regional funding to produce long-term economic gain requires strategic leadership and a considerable amount of project management."[32]

58. Dywedodd yr Athro Davies nad oedd o reidrwydd yn fater o roi mwy o'r arian i brifysgolion ond o sicrhau bod y cyllid presennol yn cael ei wario'n effeithiol:

> "…these strategic partnerships are needed to ensure that the money that is already being spent and that is likely to be spent on relatively short term focused projects can have a long-term impact…adding value to what we do already."[33]

59. Roedd y ffactorau a oedd yn effeithio ar allu Cymru i ddatblygu economi uwch-dechnoleg wedi cael eu hadnabod fel: nifer fach o sefydliadau wedi eu gwasgaru ar draws Cymru; dull 'pot jam' o ariannu ymchwil a datblygu o wahanol botiau; sefydliadau gyda chynlluniau busnes ar wahân a phroblemau strwythurol yn y sector addysg uwch. Mae cwmnïau mawr hefyd yn tueddu i ffurfio partneriaethau gyda phrifysgolion mawr ac roedd y prosiectau arloesi llwyddiannus yng Nghymru yn cynnwys partneriaethau gyda phrifysgolion o ranbarthau eraill. Cyfeiriodd yr Athro Davies at arolwg gan y CBI yn dangos bod cwmnïau mawr yn awchus iawn i weithio'n agos gyda phrifysgolion a'i fod yn faes oedd angen ei ecsbloetio.

---

[31] Paragraff 90, Trawsgrifiad 4 Mai 2010
[32] Paragraff 91, Trawsgrifiad 4 Mai 2010
[33] Paragraff 96, Trawsgrifiad 4 Mai 2010

60. Dywedodd fod angen cyfeiriad strategol i helpu sefydliadau i weld y darlun mwy, i fod yn strategol o ran pa ffrydiau ariannu oeddent yn ymgeisio amdanynt a bod angen iddynt ganolbwyntio ar ddarparu prosiectau mawr mewn ffordd gydgysylltiedig a chyfunol.[34]

> "I would take a project-related approach that identifies where our collaborators and partners are outside Wales; let us go to them with joined-up thinking, as Smart Wales, rather than as one university, and ask, 'Can we attract you, or some of your operations? What is necessary to do that?'"[35]

61. Er na all Cymru bob amser o reidrwydd gyflawni twf drwy gysylltu ei phrifysgolion â datblygu economaidd sy'n troi o gwmpas cwmni mawr fel Nokia neu Ericsson, fel y mae rhai gwledydd Nordig wedi llwyddo i'w wneud, gallai Cymru gysylltu ei gwmnïau bach a chanolig gyda chwmnïau pellach i ffwrdd, oherwydd rydym yn byw'n gynyddol mewn byd rhithiol. Roedd datblygu cadwyni cyflenwi rhwng cwmnïau bach a chanolig, a chwmnïau mawr, yn cael ei weld fel rhywbeth hollbwysig.

62. Roedd Dr Swinburne ASE ynghyd â'r pennaeth ymchwil ac arloesi ym Mhrifysgol Abertawe hefyd wedi nodi bod arloesi i'w gael yn rhai o fusnesau 'hen dechnoleg' presennol Cymru, fel Corus.[36] Gellid sianelu cyllid i symud y diwydiannau hyn yn eu blaenau ac ennill mantais gystadleuol drwy wneud hynny, yn hytrach na dim ond buddsoddi mewn "blue-sky research".[37]

**Argymhelliad 11: Bod Llywodraeth Cymru'n amlinellu ei chynlluniau: i roi'r arweiniad a'r cyfeiriad strategol angenrheidiol i wella cystadleurwydd a rhagoriaeth ymchwil a datblygu cymhwysol ym mhrifysgolion Cymru a'u trosglwyddo i fusnesau a chyflogaeth; datblygu cydweithio agosach rhwng y sectorau addysg uwch ac addysg bellach ac Adran Datblygu Economaidd Llywodraeth Cymru; a sicrhau bod ffrydiau ariannu i Gymru gan yr UE yn y dyfodol yn seiliedig ar gefnogi'r blaenoriaethau strategol hyn.**

---

[34] Paragraffau 116-117 a 124, Trawsgrifiad 4 Mai 2010
[35] Paragraff 121, Trawsgrifiad 4 Mai 2010
[36] Paragraff 101, Trawsgrifiad 4 Mai 2010
[37] Paragraff 72, Trawsgrifiad 1 Mawrth 2010

## Yr agenda sgiliau

63. Roedd y Pwyllgor wedi trafod sut oedd y prosiectau blaenllaw 'Youth on the Move' a'r 'An agenda for new skills and jobs' yn Ewrop 2020 yn gweithio i hybu'r agenda sgiliau yng Nghymru. Dywedodd yr Athro Davies fod cwmnïau yn poeni'n arw am y llif talent, ac nad yw prifysgolion Cymru wedi llwyddo i ddenu'r holl gyllid sydd ar gael, gan gynnwys o'r Seithfed Rhaglen Fframwaith ar Ddatblygu Ymchwil a Thechnoleg (FP7) a chan y Cynghorau Ymchwil, yn bennaf oherwydd diffyg pynciau STEM (Ystadegau, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg).[38]

64. Y neges oedd bod yn rhaid i Gymru dyfu yn ei hymchwil o safon fyd-eang yn y pynciau hyn, gyda chyfeiriad strategol gan Lywodraeth Cymru. Roedd angen cael y sectorau addysg bellach ac addysg uwch i weithio mewn partneriaeth i ehangu'r sylfaen sgiliau y mae cwmnïau mwy yn chwilio amdanynt.[39] Roedd Dr Kay Swinburne ASE hefyd wedi nodi bod y farchnad fyd-eang ar gyfer sgiliau'n golygu bod angen cael fframweithiau yn eu lle mewn addysg uwch a fyddai'n annog pobl i fod eisiau aros yng Nghymru yn hytrach na gadael. Roedd rôl y cynghorau sgiliau mewn codi dyheadau wedi'i nodi, ond codwyd cwestiwn hefyd ynghylch pa mor gydgysylltiedig oeddent i ymateb i alwadau cwmnïau mawr a allai fod yn ystyried lleoli eu gwaith yng Nghymru.[40]

65. Nododd yr Athro Davies fod Cymru, yn hanesyddol, yn llusgo ar ôl gweddill y DU o ran darpariaeth gwyddoniaeth a thechnoleg y pen o'r boblogaeth - tua hanner y ddarpariaeth sydd yn yr Alban a thua 30 y cant yn llai nag yn Lloegr - ystyrir bod cywiro hyn yn hollbwysig os am gael economi uwch-dechnoleg fodern yng Nghymru. Cydnabyddir y gallai ariannu hyn fod yn eithaf poenus, oherwydd roedd y sefyllfa ariannol bresennol yn golygu mai ond drwy beidio â gwario ar bethau eraill y gellid gwneud hyn. Os yw gwyddoniaeth a thechnoleg am gael eu datblygu'n gyflym, gyda'r arbenigedd presennol, byddai hefyd yn golygu canolbwyntio ar nifer gymharol fach o sefydliadau.[41]

66. Roedd Aelodau Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan wedi nodi pa mor bwysig oedd prosiectau a ddaethai gerbron Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru gan y sector addysg uwch a chan gyrff eraill a oedd yn canolbwyntio ar wella sgiliau, a'r gobaith oedd y byddai

[38] Paragraph 130, Transcript 4 May 2010
[39] Paragraffau 104-106, Trawsgrifiad 4 Mai 2010
[40] Paragraff 107, Trawsgrifiad 4 Mai 2010.
[41] Paragraff 111, Trawsgrifiad 4 Mai 2010

hyfforddiant sgiliau'n dod yn rhan annatod o unrhyw Bolisi Cydlyniant yn y dyfodol, ynghyd â lleihau carbon.[42]

**Argymhelliad 12: Bod Llywodraeth Cymru'n amlinellu sut y bydd yn rhoi mwy o gyfeiriad strategol i'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach i flaenoriaethu datblygu hyfforddiant a sgiliau mewn pynciau STEM ynghyd â mwy o ddarpariaeth gwyddoniaeth a thechnoleg, fel rhan o'i strategaeth ehangach o wella hyfforddiant sgiliau lefel uwch yng Nghymru.**

## 13. Ffynonellau cyllido eraill

67. Mae'n hanfodol bod Cymru'n manteisio ar bob ffynhonnell gyllid gan yr UE i Gymru, gan gynnwys prif offeryn yr UE ar gyfer cyllid ymchwil: y Seithfed Rhaglen Fframwaith ar Ddatblygu Ymchwil a Thechnoleg (FP7). Mae FP7 yn rhedeg rhwng 2007-2013 a bydd yn cael ei olynu gan FP8 o 2014-2020 ymlaen. Fel sydd eisoes wedi'i nodi, mae Cymru'n cael trafferth cael gafael ar ei chwota cyllid llawn o FP7 a chan y Cynghorau Ymchwil oherwydd diffyg sgiliau mewn pynciau STEM. Dywedodd Prifysgol Glyndŵr mai'r prifysgolion traddodiadol a oedd fel arfer yn llwyddo i dderbyn cyllid gan y Cynghorau Ymchwil ac roeddent o'r farn mai arian Ewropeaidd oedd eu cyfle gorau nhw i ariannu prosiectau datblygu ymchwil posibl yng Nghymru.

68. Roedd y Pwyllgor wedi gofyn am dystiolaeth bellach o fynediad Cymru at ffynonellau cyllid Ewropeaidd gan Swyddfa Addysg Uwch Cymru ym Mrwsel (WHEB). Roedd yn tanlinellu pa mor bwysig oedd cael cyfeiriad mwy strategol a chymorth i Gymru wneud y mwyaf o'r cyfleoedd, wrth ddatblygu dull 'Tîm Cymru' o wneud hyn drwy gynnwys addysg uwch, busnesau, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth Leol yng Nghymru. Roedd Swyddfa Addysg Uwch Cymru ym Mrwsel wedi nodi bod angen symud yn gyflym yng nghyd-destun Adolygiad Cyllideb yr UE a'r Cynllun Ymchwil ac Arloesi oedd i'w gyhoeddi gan y Comisiynydd Ymchwil yn yr hydref 2010, gyda chynigion ar gyfer FP8 i'w cyhoeddi erbyn diwedd 2011. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi y bydd y targedau pennawd cenedlaethol (Aelod-Wladwriaethau) a fydd yn codi o Strategaeth Ewrop 2020 yn bwydo i Raglen Ddiwygio Genedlaethol y DU sydd i'w chyflwyno erbyn yr hydref 2010, a bod hyn yn gyfle i ystyried anghenion Cymreig penodol.

[42] Paragraff 40, Trawsgrifiad 18 Mai 2010

69. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gryf o blaid argymhelliad WHEB bod y sector addysg uwch yn datblygu deialog agos gydag Aelodau Seneddol Ewropeaidd dros Gymru i gynrychioli buddiannau a blaenoriaethau'r sector ar gyfer FP8 yn Senedd Ewrop.

70. Cyfeiriodd WHEB at nifer o gyfleoedd posibl lle gallai Cymru gael gafael ar ffrydiau ariannu pellach,[43] gan gynnwys cyllid gan y Cynghorau Ymchwil a chyllid arall wrth i Aelod-Wladwriaethau, gan gynnwys yr UE, symud tuag at 'Raglenni ar y Cyd' i ddiffinio Agenda Ymchwil Strategol gyffredin. Mae'r meysydd ymchwil sydd wedi eu nodi ar gyfer rhaglenni ar y cyd yn cynnwys amaethyddiaeth, diogelwch bwyd a'r newid yn yr hinsawdd; iechyd, bwyd ac atal afiechydon sy'n gysylltiedig â diet; treftadaeth ddiwylliannol, y newid yn yr hinsawdd a diogelwch. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymdrechion gan y sector addysg uwch yng Nghymru i fanteisio'n llawn ar bob un o'r cyfleoedd hyn.

**Argymhelliad 13: Bod Llywodraeth Cymru'n datblygu dull 'Tîm Cymru' agosach o weithio mewn partneriaeth â'r sector addysg uwch, y sector busnes a llywodraeth leol yng Nghymru fel mater o frys, i sicrhau eu bod yn achub ar bob cyfle ariannu Ewropeaidd presennol ac yn y dyfodol i ddatblygu sgiliau STEM ac i annog ymchwil a datblygu ac arloesi yng Nghymru, gan gynnwys FP8.**

**Argymhelliad 14: Bod Llywodraeth Cymru'n egluro sut y bydd yn sicrhau bod y sector addysg uwch yng Nghymru a phartneriaid strategol eraill yn cyfrannu'n ddi-oed at y broses o osod, ar gyfer Gwledydd yr Undeb a'r DU, y 'targedau pennawd cenedlaethol' a fydd yn codi o Strategaeth Ewrop 2020, ar ôl i'r Cyngor Ewropeaidd gytuno ar y strategaeth honno.**

[43] EUR(3)-09-10:Papur 7

## Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-eur-home.htm

*1 Mawrth 2010 **

| | |
|---|---|
| Yr Athro Danuta Hübner ASE | Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Rhanbarthol, Senedd Ewrop |
| John Bufton ASE | Aelod dros Gymru o Senedd Ewrop |
| Jill Evans ASE | Aelod dros Gymru o Senedd Ewrop |
| Dr Kay Swinburne ASE | Aelod dros Gymru o Senedd Ewrop |
| Derek Vaughan ASE | Aelod dros Gymru o Senedd Ewrop |

*16 Mawrth 2010*

| | |
|---|---|
| Ieuan Wyn Jones AC, | Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth |
| Philip Bird | Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Andy Klom | Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru |

*20 Ebrill 2010*

| | |
|---|---|
| Philip Harris | Optic Glyndŵr |
| Andrew Parry | Prifysgol Glyndŵr |

*4 Mai 2010*

| | |
|---|---|
| Carwyn Jones AC | Prif Weinidog Cymru |
| Gary Davies | Pennaeth yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Chris Miles | Dirprwy Bennaeth Ysgrifenyddiaeth Bolisi'r UE, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| Yr Athro Richard B Davies | Is-Ganghellor, Prifysgol Abertawe |
| Jan Nielsen | Pennaeth Gwasanaethau Trosglwyddo Gwybodaeth, Prifysgol Abertawe |

*18 Mai 2010*

| | |
|---|---|
| Jeff Cuthbert AC | Cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan |
| Siôn Jones | Aelod o Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan |
| Carol Greenstock | Aelod o Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan |
| Simon Brooks | Is-Lywydd Banc Buddsoddi Ewrop |
| Adam McDonaugh | Banc Buddsoddi Ewrop |
| Christopher Hurst | Banc Buddsoddi Ewrop |
| Robert Schofield | Banc Buddsoddi Ewrop |

* Yn ogystal â thystiolaeth lafar ffurfiol, roedd y Pwyllgor hefyd wedi cael trafodaethau anffurfiol ym Mrwsel gyda swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd o’r Cyfarwyddiaethau Cyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol a Chyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chyfle Cyfartal ac o Gabinet Llywydd Barroso; gyda’r Cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol, Graham Meadows; gyda’r cynrychiolydd rhanbarthol dros Saxony-Anhalt a Chynrychiolwyr Parhaol Sbaen yn yr UE. Cyhoeddwyd adroddiad cryno o'r trafodaethau hynny fel papur EUR(3)-06-10 (tud 7).

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn [http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-eur-home.htm](http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-eur-home.htm)

| *Enw* | *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
|---|---|---|
| Dr Kay Swinburne ASE | Aelod dros Gymru o Senedd Ewrop | EUR(3)-04-10: Papur 1 |
| Andy Klom | Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru | EUR(3)-05-10: Paper 1 |
| Ieuan Wyn Jones AC | Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth | EUR(3)-05-10: Paper 3 |
| Dr Michael Schneider | Rapporteur y Comisiwn COTER, Pwyllgor y Rhanbarthau | EUR(3)-06-10: Papur 1 |
| Philip Harris<br>Andrew Parry | Optic Glyndŵr | EUR(3)-06-10: Papur 4 |
| Carwyn Jones AC | Prif Weinidog Cymru | EUR(3)-07-10: Papur 2 |
| Yr Athro Richard B Davies | Is-Ganghellor, Prifysgol Abertawe | EUR(3)-07-10: Papur 3 |
| Jeff Cuthbert AC | Cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan | EUR(3)-08-10: Papur 1 |
| Simon Brooks | Is-Lywydd Banc Buddsoddi Ewrop | EUR(3)-08-10: Papur 2 |
| Berwyn Davies | Sefydliadau Addysg Uwch Cymru | EUR(3)-09-10: Papur 8 |

# Atodiad – Adroddiad interim cyntaf: Cylch gorchwyl a'r materion allweddol y bydd rhaid mynd i'r afael â nhw

Deall a cheisio dylanwadu ar y drafodaeth sy'n codi dros ddyfodol Polisi Cydlyniant yr UE ar ôl 2013.

Cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y sefyllfa negodi yn y drafodaeth hon a fydd yn debygol o roi'r manteision mwyaf posibl i bobl Cymru.

Rhannu'r argymhellion hyn â Sefydliadau'r UE, yn arbennig y Comisiwn Ewropeaidd, rhwydweithiau'r UE, a rhanddeiliaid allweddol eraill ym Mrwsel ac yng Nghymru.

Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn dymuno canolbwyntio'n benodol ar y cwestiynau/materion canlynol yn yr Ymchwiliad:

- Beth yw gweledigaeth Comisiynydd Hübner ar gyfer cyfeiriad y polisi i'r dyfodol? I ba raddau y bydd y polisi yn y dyfodol yn dilyn cynllun y cyfnod presennol, yn benodol Amcanion Cydgyfeirio, Amcanion Cystadleurwydd, Amcanion Cyflogaeth ac Amcanion Cydweithio? A yw'n rhagweld newid radical?

- Sut y mae'r Comisiynydd yn credu y byddai'r polisi newydd yn mynd i'r afael â'r pedair prif her: globaleiddio, newid demograffig, newid yn yr hinsawdd? A yw'n rhagweld y bydd unrhyw flaenoriaethau newydd yn yr Amcanion cyffredinol?

- Beth yw lle Cydlyniant Tiriogaethol yn y ddadl hon? A yw'r Comisiynydd yn rhagweld y bydd hon yn thema drawsbynciol yn y polisi cyfan, neu a fydd yn canolbwyntio ar yr amcan Cydweithredu?

- A yw'r Comisiynydd yn rhagweld y rhoddir mwy o bwysigrwydd ar offerynnau ariannol megis JESSICA a JEREMIE yn y Polisi Cydlyniant newydd, a mwy o rôl i Fanc Buddsoddi Ewrop, yn lle'r agwedd draddodiadol at gyllido sy'n seiliedig ar grantiau?

- Beth yw manteision y ffaith bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn galw am gyllid Pontio a Thrawswladol?

- Beth yn union yw dealltwriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o gyllid "Pontio", ac a oes ganddynt ffigurau dangosol ar gyfer faint y byddent yn gobeithio ei gael fel rhan o'r fargen hon?

- Pa mor ymrwymedig yw Llywodraeth y DU i amddiffyn y safbwynt hwn mewn trafodaethau ar y polisi newydd? Sut mae'r elfen "bontio" yn gweddu â bwriad Llywodraeth y DU i gael polisi cydlyniant "ail-wladoli" ac eithrio'r rhanbarthau tlotaf yng nghanol a dwyrain Ewrop?

- Ble mae datblygu gwledig yn y Fframwaith Polisi? A ddylid ei ail-ymgorffori yn y Cronfeydd Strwythurol neu a ddylai aros yn fater ar wahân, fel rhan o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin? A oes agwedd arall y gellir ei chymryd?

- Beth yw'r safbwyntiau sy'n codi ym Mrwsel? Mewn rhwydweithiau'r UE, yn y rhanbarthau a'r Aelod Wladwriaethau? Sut y mae'r safbwyntiau hyn yn cymharu â barn Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU? A oes unrhyw agweddau o'r safbwyntiau hyn sy'n codi yn ddeniadol o safbwynt Cymru?